Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 17.01.2023

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

## CEFNOGAETH: Cynllun Gostyngiad mewn Biliau Ynni newydd i fusnesau

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi 'Cynllun Gostyngiad Biliau Ynni' newydd i fusnesau, elusennau, a'r sector cyhoeddus o Ebrill 2023, pan ddaw y cynllun presennol i ben, hyd at 31 Mawrth 2024. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

http://bit.ly/3Xgzoft

## ARIANNU: Catalydd Creadigol 2023

Gall busnesau micro a bach cofrestredig yn y sector diwydiannau creadigol yn y DU wneud cais am gyllid hyd at £50,000 gyda

pecyn cymorth i dyfu eu busnes. Mae’r gystadleuaeth yn cau ar 15 Chwefror 2023. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/3WfZNss

## ADNODDAU: 2023: Llwybrau – Blwyddyn Thematig Croeso Cymru

Blwyddyn thematig Croeso Cymru ar gyfer 2023 yw Llwybrau. Mae canllawiau “Llwybrau”, gyda logo a delweddau o ansawdd uchel, i bartneriaid yn y diwydiant eu lawrlwytho a’u defnyddio, ar gael ar:

https://assets.wales.com/assets?tags=Llwybrau

## DIGWYDDIAD: Gweminar Guardians of Grub 25 Ionawr 2023

Guardians of Grub: Becoming a Champion yw siop un stop WRAP ar gyfer gweithwyr lletygarwch a gwasanaeth bwyd proffesiynol sy’n ceisio’r wybodaeth sydd ei angen i arbed arian drwy leihau gwastraff bwyd yn eu busnes. Bydd gweminar am ddim ar 25 Ionawr 2023 (2:00pm-3:00pm), yn esbonio mwy am y rhaglen, beth yw’r buddion a pha wahaniaeth y gall ei wneud i fusnes. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3GdK8p8

## DIGWYDDIAD: Rhwydwaith Sero Net Gogledd Cymru – 7 Chwefror 2023

Mae Rhwydwaith Sero Net Gogledd Cymru yn dod â busnesau a sefydliadau perthnasol ynghyd o gwmpas darparu datgarboneiddio; ysbrydoli, hysbysu a chynghori busnesau ar eu taith i Sero Net. Cynhelir sesiwn wyneb yn wyneb Sero Net Gogledd Cymru yng Nghanolfan Busnes Conwy ar 7 Chwefror 2023 (12:30pm), fydd yn cynnwys cinio, rhwydweithio ac arddangosfa bach. I gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3Wg4hPO

## IECHYD A DIOGELWCH: Diogelwch twb poeth i ddarparwyr llety

Mae gweminarau a phecyn cymorth i helpu darparwyr llety i ddeall y camau sydd eu hangen eu cymryd i sicrhau bod amgylchedd twb poeth yn ddiogel i westeion ac i berchnogion, staff a chontractwyr sy'n cynnal tybiau poeth ar gael ar:

http://bit.ly/3kf1Gsd

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

# Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---